

Cerdyn Argyfwng Gofalwr

Ffeithlen 9

(Awst 2019)

Beth yw Cerdyn Argyfwng Gofalwr?

Dyma gerdyn y gall Gofalwyr ei gario i hysbysu eraill os ydynt yn cael damwain neu os nad ydynt yn gallu dychwelyd adref i gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu.

Bydd y cerdyn yn galluogi'r gwasanaethau brys neu eraill i gysylltu â'r bobl berthnasol er mwyn rhoi gwybod iddynt fod rhywun gartref nad yw'n gallu ymdopi heb gymorth.

Sut y bydd hyn yn gweithio?

Bydd Gofalwyr yn cwblhau ffurflen gofrestru i roi manylion am y person y maent yn gofalu amdano, ynghyd â manylion cyswllt hyd at dri pherson enwebedig sy'n gallu ymateb mewn argyfwng neu mewn amgylchiadau annisgwyl eraill.

Bydd y ffurflen wedi'i chwblhau yn cael ei hanfon i Lesiant Delta a byddant yn cyhoeddi Cerdyn Argyfwng Gofalwr a fydd yn cynnwys rhif unigol y Gofalwr.

Os bydd argyfwng neu ddigwyddiad annisgwyl, bydd y gwasanaethau brys neu eraill yn cysylltu â Llesiant Delta gan ddyfynnu'r rhif cofrestru unigryw. Bydd hyn yn galluogi'r staff i drefnu cymorth drwy gysylltu â'r unigolyn/unigolion enwebedig.

Bydd yr unigolyn/unigolion enwebedig yn darparu cymorth dros dro i osgoi argyfwng neu'r perygl y bydd y person agored i niwed sydd gartref yn dirywio.

Beth os nad oes unrhyw un a allai gymryd fy lle dros dro?

Gallwch gofrestru ar gyfer y cynllun o hyd. Os bydd argyfwng, bydd Llesiant Delta yn ffonio'r gwasanaethau cymdeithasol yn awtomatig a byddant yn ymateb ac, os oes angen, yn gwneud trefniadau eraill ar gyfer y person sy'n derbyn gofal.

Yn yr un modd, os nad yw'r unigolyn/unigolion enwebedig ar gael, cysylltir â'r gwasanaethau cymdeithasol.



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:
www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol

Beth mae'n rhaid i'r unigolyn/unigolion enwebedig ei wneud?

Dylai'r unigolyn/unigolion enwebedig fod yn adnabod y person rydych yn gofalu amdano a gwybod faint o gymorth sydd ei angen arno. Byddant wedi rhoi caniatâd i gysylltu â nhw, a byddant yn gwybod sut i fynd i mewn i'ch cartref a beth i'w wneud yn y fath amgylchiadau.

Hefyd, dylai'r sawl a enwebwyd wybod pa feddyg teulu y mae'r person rydych yn gofalu amdano wedi'i gofrestru ag ef, ac am unrhyw aelod arall/aelodau eraill o'r teulu y dylai gysylltu â nhw os bydd yn cael ei alw.

Sut yr wyf yn gwneud cais am gerdyn?

Gallwch wneud cais am gerdyn drwy gwblhau'r ffurflen gofrestru ar ddiwedd y Ffeithlen hon. Pan fydd wedi'i chwblhau, dylech anfon y ffurflen i:

Llesiant Delta, Porth y Dwyrain, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 3YF

Pan fydd y ffurflen wedi'i dychwelyd i Llesiant Delta, byddant yn prosesu'r wybodaeth ac yn anfon cerdyn atoch a fydd yn cynnwys eich rhif cofrestru unigryw.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol, gan gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018. Bydd gwybodaeth ond yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill gyda'ch caniatâd chi, caniatâd y person sy'n derbyn gofal a chaniatâd yr unigolyn/unigolion enwebedig.

Fodd bynnag, ar adegau, bydd yn ofynnol dan y gyfraith inni ddatgelu gwybodaeth heb eich caniatâd, er enghraifft:

- I'r heddlu neu'r llys mewn materion cyfreithiol neu droseddol difrifol;
- I osgoi niwed difrifol i chi neu i eraill.

Beth os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Os oes newid yn eich amgylchiadau, cysylltwch â Llesiant Delta drwy ffonio 0300 333 2222 i roi gwybod am y newidiadau.

Gellir cael manylion am sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth i Ofalwyr gan y canlynol:

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr: 0300 0200 002

Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, cysylltwch â 01267 228703



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:
www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol

Cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr – Ffurflen Gofrestru

At ddefnydd y swyddfa – Cyfeirnod:

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei rhannu heblaw mewn argyfwng neu os oes gennym bryderon am eich lles chi neu les y person rydych yn gofalu amdano.

Defnyddiwch briflythrennau os gwelwch yn dda. Rhaid cwblhau pob rhan.

Manylion y Gofalwr			
Enw:	_____	Dyddiad Geni:	_____
Cyfeiriad:	_____		
		Côd Post:	_____
Rhifau Ffôn:	Cartref: _____	Gwaith: _____	Symudol: _____
Manylion y person sy'n derbyn gofal			
Enw:	_____	Dyddiad Geni:	_____
Cyfeiriad:	_____		
		Côd Post:	_____
Rhifau Ffôn:	Cartref: _____	Gwaith: _____	Symudol: _____
Enw a chyfeiriad y meddyg teulu: _____			
Beth yw'r salwch neu'r anabledd (rhestrwch yr holl gyflyrau, megis “diabetes – wedi'i reoli â thabledi”/“dementia”/“byddar neu drwm ei glyw”, ac ati):			
Beth yw perthynas y person â chi: (Gŵr, Gwraig, Mab, Merch, Arall):			

Person Cyswllt mewn Argyfwng		
A oes gennych berson i gysylltu ag ef mewn argyfwng? (rhowch gylch)	Oes	Nac Oes

Mae'n rhaid ichi sicrhau bod gan yr unigolyn/unigolion enwebedig fynediad i'r eiddo a'u bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Unigolyn enwebedig 1 – Person cyswllt cyntaf

Enw: _____ Dyddiad Geni: _____

Cyfeiriad: _____

Côd Post: _____

Rhifau Ffôn: Cartref: _____ Gwaith: _____ Symudol: _____

Perthynas â'r person sy'n derbyn gofal: _____

Unigolyn enwebedig 2 – Ail berson cyswllt

Enw: _____ Dyddiad Geni: _____

Cyfeiriad: _____

Côd Post: _____

Rhifau Ffôn: Cartref _____ Gwaith: _____ Symudol: _____

Perthynas â'r person sy'n derbyn gofal: _____

Unigolyn enwebedig 3 – Trydydd person cyswllt

Enw: _____ Dyddiad Geni: _____

Cyfeiriad: _____

Côd Post: _____

Rhifau Ffôn: Cartref: _____ Gwaith: _____ Symudol: _____

Perthynas â'r person sy'n derbyn gofal: _____

Beth os nad oes person enwebedig?

Os nad oes gennych berson enwebedig, neu os nad yw'r person enwebedig ar gael,

Gwybodaeth i'w rhannu â'r Gwasanaethau Brys

A yw'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn gwybod am y person rydych yn gofalu amdano? Ydyn Nac Ydyn

Os felly, pa Weithiwr Cymdeithasol neu Dîm: _____

Pa bethau y mae angen help ar y person rydych yn gofalu amdano i'w gwneud?
(Rhowch **OES** neu **NAC OES**)

Symudedd – Angen cymorth i gerdded/symud o amgylch/mae'n defnyddio cadair olwyn **Oes** **Nac Oes**

Ymolchi a gwisgo **Oes** **Nac Oes**

Cymorth cyffredinol o ddydd i ddydd (gall fod yn ddrislyd neu'n tueddu i gynhyrfu) **Oes** **Nac Oes**

Paratoi bwyd a diod (a oes unrhyw anghenion deietegol?) **Oes** **Nac Oes**

Cymryd tabledi neu feddyginiaethau eraill **Oes** **Nac Oes**

Ychwanegwch yma:

Sut y byddai'r Gwasanaethau Brys yn mynd i mewn? (Nodwch pwy sydd ag allwedd neu ble mae'r allwedd yn cael ei chadw neu sut y gellir cael gafael arni).

Cymorth arall y mae'r person sy'n derbyn gofal yn ei gael.

Dywedwch wrthym am unrhyw wasanaethau sydd eisoes ar waith, e.e. gofal cartref/gofal dydd

Y Gwasanaeth Sydd Ar Waith	Enw'r Cwmni	Pa Mor Aml

Gwybodaeth arall sy'n bwysig

Rhowch wybod inni am unrhyw beth arall a allai fod yn ddefnyddiol mewn argyfwng, gan gynnwys a oes gennych anifail anwes a beth rydych am inni ei wneud ag ef.

Er mwyn inni ddarparu gwasanaeth ymatebol, gall fod angen inni rannu'r wybodaeth hon ag asiantaethau eraill.

Rwy'n cytuno drwy hyn y gall y wybodaeth uchod gael ei chadw ar ffeil a'i defnyddio mewn argyfwng.

Llofnod y Gofalwr	_____	Dyddiad: _____
Llofnod y Dibynnydd	_____	Dyddiad: _____
Llofnod Enwebai 1	_____	Dyddiad: _____
Llofnod Enwebai 2	_____	Dyddiad: _____
Llofnod Enwebai 3	_____	Dyddiad: _____

Dylid dychwelyd ffurflenni sydd wedi'u cwblhau i:

Llesiant Delta, Porth y Dwyrain, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. SA15 3YF